



### **DIM EMBARGO: I'W GYHOEDDI AR UNWAITH**

## **DATGANIAD I'R WASG:**

### **Cytundeb wedi'i lofnodi i hybu defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg**

1 Tachwedd 2016

Mae Cyngor Bro Morgannwg a Menter Bro Morgannwg wedi llofnodi cytundeb fframwaith newydd i ddatblygu gwasanaethau newydd i gryfhau'r iaith Gymraeg yng nghymunedau'r Fro.

Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg ym mis Ebrill 2013 gyda'r nod o hybu ac ehangu defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Ers hynny, maent wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i gynnig nifer o weithgareddau a digwyddiadau i greu mwy o gyfleoedd i breswylwyr y Fro ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r gwaith a'r ysgol. Ymhlith y rhain mae gŵyl Gymreig a gynhelir yn Ynys y Barri, Gŵyl Fach y Fro, gwersi nofio i fabis a gweithgareddau hamdden eraill i bobl o bob oed.

Ers sefydlu Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn 2000, mae cynnydd sylweddol yn y nifer o rieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Yn ei dro, bydd hyn yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg. Bwriad Menter Bro Morgannwg yw annog y plant hynny sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a'u rhieni, i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Mae'r cytundeb fframwaith hwn yn gydnabyddiaeth ffurfiol o'r gwaith partneriaeth sydd eisoes wedi digwydd rhwng Menter Bro Morgannwg a'r Cyngor i gynnig y gweithgareddau hyn ac ymrwymo i barhau i gydweithio i gynnig y cyfleoedd hyn yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n amlygu ymrwymiad y Cyngor i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni nod eu strategaeth: iaith fyw, iaith byw.

Dywedodd Siân Lewis, Prif Swyddog Menter Bro Morgannwg,  
*'Rydym yn falch iawn bod y Cyngor yn rhan o'r cytundeb hwn, sy'n gwarantu y byddwn yn gallu parhau i adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud yma yn y Fro. Rydym newydd gynnwys Gŵyl Fach y Fro am yr ail dro, a oedd yn llwyddiant ysgubol, ac rydym yn gobeithio*

*parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor i gynnal digwyddiadau fel hyn ac i gyflawni ein nod fel sefydliad.'*

Dywedodd Rob Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr Cyngor Bro Morgannwg, 'Bydd y cytundeb hwn yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng y Cyngor a Menter Bro Morgannwg. Fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn ei rôl o ran datblygu defnydd o'r iaith a'i gyfrifoldeb i gynnig amryw weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg i breswylwyr. Edrychaf ymlaen i adeiladu ar y bartneriaeth hon a mynd i'r afael â'n nod fel Cyngor i adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair.'

## **DIWEDD**

### **Nodiadau**

- Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu Menter y Fro yn Ionawr 2013, sicrhaodd Menter Caerdydd tendor o £30,000 i ddatblygu ac arwain prosiect yn ymwneud â'r Gymraeg ym Mro Morgannwg trwy gyd-weithio â phartneriaid lleol yn ogystal â'r awdurdod lleol.
- Prif nod Menter Bro Morgannwg yw i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Y Fro, a chreu cyfleoedd i drigolion y Sir ddefnyddio'r iaith y tu allan i oriau gwaith a muriau Ysgol.
- Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron i 11% o boblogaeth y Sir yn siaradwyr Cymraeg (13,189)

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sian Lewis (Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg): [sian@menterbromorgannwg.cymru](mailto:sian@menterbromorgannwg.cymru) / 029 20689888